



CABINET

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 15FED TACHWEDD 2017 AM 2.00P.M.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C.J. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dro Dro), C. Harrhy (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol).

Hefyd yn Bresennol:

S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), M. Lloyd (Pennaeth Rhaglenni Dirprwy – SATC), M.S. Williams (Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden), R. Harris (Rheolwr Archwilio Mewnol / Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro), S. Mutch (Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar), S. Richards (Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro– Addysg, Cynllunio a Strategaeth) a C. Evans (Swyddog Gwasanaeth Pwyllgor).

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P.A.Marsden (Addysg a Chyflawniad) a N. Scammell (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro a Swyddog Adran 151).

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

3. CABINET - 1AF TACHWEDD 2017

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Tachwedd 2017 (rhifau cofnod. 1 -7) a'i lofnodi fel cofnod cywir.

MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

4. CYNIGION CYLLIDEB DRAFFT AR GYFER 2018/19.

Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno manylion y cynigion cyllideb drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19 i'r Cabinet er mwyn caniatáu am gyfnod o ymgynghori cyn gwneud penderfyniad terfynol ym mis Chwefror 2018.

Cyhoeddwyd manylion am Setliad Ariannol Llywodraeth Leol Dros Dro 2018/19 ar 10fed Hydref 2017 a dangosodd hyn gynnydd o 0.7% yn y cyllid ar gyfer CBS Caerffili. Fodd bynnag, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddo grantiau penodol ac am gyllid ar gyfer cyfrifoldebau newydd, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad ariannol net o £2.965m o'i gymharu â blwyddyn ariannol 2017/18. Mae hyn, ynghyd â nifer o bwysau cost yr Awdurdod cyfan a phwysau gwasanaeth annisgwyl y mae angen cyllid arnynt yn golygu y bydd angen arbedion o £7.205m er mwyn sicrhau y gellir cyflawni cyllideb gytbwys yn 2018/19. Nododd y Cabinet fod y safle hwn yn honni 4.52% o gynnydd yn Nhreth y Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu bod y cynigion cyllideb drafft yn tybio na fydd twf mewn Ysgolion yn 2018/19 e.e. dyraniad sy'n aros a sydd ddim yn cynyddu neu'n gostwng. Nid oes unrhyw ofyniad yn y Setliad Dros Dro i amddiffyn Ysgolion ac felly bydd yn ofynnol iddynt reoli eu cynnydd chwyddiant cyflogau a di-dâl eu hunain yn 2018/19, ynghyd â phwysau costau eraill sy'n dod i'r amlwg. Mae hyn, mewn gwirionedd, yn cyfateb i wir doriad tymor o 1.68% ar gyfer Ysgolion o'i gymharu â gofyniad arbedion o 3.24% ar gyfer gwasanaethau eraill ar draws y Cyngor.

Manylwyd ar bwysau cost yr Awdurdod cyfan o £ 8.867miliwn yn yr adroddiad, ynghyd â manylion am bwysau gwasanaeth annisgwyl sef cyfanswm o £ 2.310miliwn.

Mae'r pwysau gwasanaeth arwyddocaol mwyaf yn ymwneud â thwf arfaethedig o £1.5m ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Nododd aelodau fod twf arwyddocaol wedi cael ei ddarparu'n barod yn y maes hwn sef cyfanswm o £6m ar gyfer 2016/17 a 2017/18. Bu'r twf hwn yn angenrheidiol i ariannu cynnydd mewn ffioedd ar gyfer darparwyr gofal allanol, oherwydd, yn bennaf i gyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol, a chostau ychwanegol sy'n deillio o'r galw cynyddol am wasanaethau yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant.

Nododd y Cabinet fod adolygiad yn parhau mewn perthynas â chontractau PFI Ysgolion a bod gofyniad twf posibl o £700 mil wedi'i nodi. Gall y ffigwr hwn leihau fel rhan o'r gwaith parhaus sy'n cael ei wneud gyda Phartneriaethau Lleol, a bydd adroddiad manwl ar wahân ar yr adolygiad PFI yn cael ei drefnu ar gyfer y Cabinet cyn i'r cynigion cyllideb terfynol ar gyfer 2018/19 gael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor ym mis Chwefror 2018.

Roedd yr adroddiad yn darparu crynodeb o arbedion arfaethedig ar gyfer 2018/19 gyda chyfanswm o £7.205m a cafodd manylion eu darparu yn Atodiad 1 a 2 o'r adroddiad. Nododd aelodau fod arbedion o gyfanswm o £4.682m wedi cael eu hadnabod ar gyfer 2018/19 nad ydynt yn cael effaith uniongyrchol ar y cyhoedd. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys rheoli swyddi gwag, adlinio cyllideb yn bennaf a mân newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir. Bydd cynigion o gyllideb ddrafft 2018/19 yn destun cyfnod o ymgynghori helaeth, ac fel rhan o'r broses ymgynghori hon, cynhelir cyfres o gyfarfodydd Pwyllgor Craffu Arbennig ym mis Rhagfyr.

O ran yr amcangyfrif ariannol ar gyfer y blynyddoedd i ddod, roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Chwefror 2017 yn dangos gofyniad arbedion posibl o tua £22miliwn am y cyfnod tair blynedd 2019/20 i 2021/22. Roedd hyn yn tybio bod dyraniad sy'n aros a sydd ddim yn cynyddu neu'n gostwng yn nhermau Setliad Ariannol Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer pob un o'r tair blynedd. Fel rhan o'r Setliad Ariannol Dros Dro, mae LIC

wedi darparu gostyngiad dangosol o Gymru gyfan o 1.5% mewn cyllid Llywodraeth Leol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20. Byddai hyn yn cynyddu gofynion arbedion Caerffili gan £3.9m pellach ar gyfer 2019/20 yn unig. Os fydd hyn yn cael ei ailadrodd yn 2020/21 a 2021/22 wedyn bydd angen arbedion pellach o £7.9m. Cyfanswm hyn fyddai gofyniad arbedion cyflawn o thua £34m ar gyfer y cyfnod o dair blynedd 2019/20 tan 2021/22.

Bydd y gostyngiad dangosol o 1.5% yn cael ei adolygu gan LIC yn dilyn Datganiad Cyllideb yr Hydref y Canghellor a'r Setliad Ariannol Llywodraeth Leol 2018/19 sydd i'w gyhoeddi ar 20fed Rhagfyr 2017, a all gynnwys ffigwr dangosol diwygiedig ar gyfer 2019/20. Cyflwynir Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod 2018/19 i 2022/23 i'r Cabinet a'r Cyngor ym mis Chwefror 2018.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

- (i) i gymeradwyo cynigion cyllideb drafft 2018/19 gan gynnwys yr arbedion arfaethedig sy'n gyfanswm o £7.205m;
- (ii) i gytuno ar y cynnig i gynyddu Treth y Cyngor o 4.52% ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 i sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei chyflawni (Band D Treth y Cyngor i'w osod ar £1,057.70);
- (iii) y bydd cynigion cyllideb drafft yn destun ymgynghoriad cyn i gyllideb derfynol 2018/19 gael ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor yn Chwefror 2018.

5. RHEOLAETH GOED

Cafodd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 1af Tachwedd 2017 a gofynnodd am farn yr Aelodau ar drefniadau rheoli coed presennol, mabwysiadu strategaeth goeden yn ffurfiol a'r adnoddau presennol (staff a chyllideb) sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth hon.

Atgoffwyd yr aelodau o'r adroddiad cychwynnol sy'n manylu ar reoli coed a strategaeth ddrafft, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 13eg Rhagfyr 2016. Yn y cyfarfod hwnnw, roedd yr Aelodau'n gefnogol i'r argymhellion a chytunwyd i ystyried gofynion adnoddau i ganfod a ellir cyflwyno'r strategaeth ddrafft cyn symud ymlaen ymhellach. Ers yr amser hwnnw, ac yn dilyn archwiliad pellach o'r strategaeth, mae Swyddogion wedi gwella peth, a gyflwynodd radd risg i danategu amlder archwiliad a gynhwysir yn y drafft gwreiddiol.

Roedd yr adroddiad diweddaraf yn nodi'r sefyllfa yn dilyn adolygiad o staff ac adnoddau'r gyllideb, ac yn amlinellu cynigion ariannol i alluogi rheoli ei stoc goed yn ddiogel yn unol â'r Strategaeth Goed arfaethedig (a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad) ac amlder parthau/arolygu canlyniadol. Esboniodd y swyddogion, oherwydd y nifer gynyddol o geisiadau am wasanaeth a'r pwysau ar y baich gwaith dilynol, mae angen cyflogi Swyddog Coedyddiaeth a thîm cynnal a chadw ychwanegol i ddellio â chynnal a chadw coedwig ar brif ffyrdd. Hefyd wedi ei atodi gyda'r adroddiad oedd rhestr o'r brif ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n amlinellu cyfrifoldebau'r perchennog tir yn ymwneud â choed a dyletswydd gofal.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a gofynnodd i argymhelliad ychwanegol gael ei gynnwys, i hysbysu'r cyhoedd am eu cyfrifoldeb a'u rhwymedigaeth am goed preifat ar eu heiddo.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad a gynhwysir yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, ac fel yr amlinellir yn y cyfarfod: -

- (i) bod y trefniadau rheolaeth goed bresennol a osodir o fewn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo;
- (ii) i gymeradwyo'r Strategaeth Coed ddrafft arfaethedig yn Atodiad 1, ac amlder archwiliadau rhagweithiol arfaethedig;
- (iii) bod y cynigion cyllidol a nodir yn yr adroddiad yn cwrdd â chostau cysylltiedig yn cyflwyno'r strategaeth coed a chydymffurfio ag atebolrwydd lechyd a Diogelwch yr Awdurdod;
- (iv) bod y Cyhoedd yn cael eu cynghori o'u cyfrifoldeb eu hunain ar gyfer coed ar eu heiddo.

6. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG 2017 - 2020

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Addysg am Oes ar 7fed Tachwedd 2017, yn darparu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Caerffili (CSGA) 2017 -20 i'r Aelodau a gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cabinet, cyn ei gyhoeddi.

Datblygwyd y CSGA yn lleol ond gyda dull strategol ar y cyd drwy'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg, gan ganiatáu ar gyfer datblygu awdurdodau lleol ac atebolrwydd. Mae pwyslais lleol cryf ar ganlyniadau 1, 2 a 6 gyda chanlyniadau 3, 4, 5 a 7 yn cael eu cyfeirio'n fwy rhanbarthol.

Mae'r CSGA yn cyflawni dyletswydd yr awdurdod lleol i fonitro a gwella safonau'r Gymraeg, cyrhaeddiad addysg ac mae'n cyfeirio at y defnydd priodol o gyllid Grant y Gymraeg mewn Addysg, a weinyddir yn rhanbarthol.

Rhaid cyflwyno CSGA unigol i gyflawni dyletswydd gyfreithiol pob awdurdod lleol. Serch hynny, rhaid i gydweithio rhanbarthol gael ei gydnabod o fewn cynlluniau unigol.

Mae'r CSGA yn cael ei ddiweddarau a'i fonitro bob tymor gan Fforwm Addysg Gymraeg Caerffili, yn ogystal â thrwy Fforwm Addysg Gymraeg Rhanbarthol Strategol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol rhwng 21ain Hydref a 13eg Rhagfyr 2016 ac adlewyrchwyd yr ymatebion yn y cynnig drafft diwygiedig i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru am sylwadau / cymeradwyaeth. Mae argymhellion gan Lywodraeth Cymru wedi cael eu nodi yn y cynllun diwygiedig ac wedi ei amlygu yng nghorff yr adroddiad.

Mae'r CSGA yn cynnwys dadansoddiad o'r ddarpariaeth bresennol, yn amlygu'r arfer gorau ac yn cynnwys targedau ar gyfer darpariaeth well a pharhaus. Mae'r awdurdod lleol yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi dewis rhieni drwy gymorth teg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad a gynhwysir yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD nodi a chymeradwyo'r drafft terfynol o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion ac yn dilyn argymhellion y Gweinidog.

EITEM BRYD – DDM YN AMODOL AR ALW I MEWN

7. CYNNGIG PARCIO NADOLIG AM DDM AR GYFER TREF CAERFFILI

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, mae'r Maer wedi cytuno bod y penderfyniad a gynigwyd yn rhesymol ac wedi cytuno y dylid trin y penderfyniad fel eithriad rhag Galw i mewn.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod yr adroddiad yn cael ei ystyried yn frys ar y sail bod busnesau tref Caerffili wedi nodi bod gwaith gwella Cylchfan Pwll-y-pant wedi cael effaith niweidiol ar eu ffigurau masnachu, o ganlyniad i ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr a nifer yr ymwelwyr o fewn y dref. Mae cyfanswm sylweddol o'u masnach flynyddol yn digwydd yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig.

Er mwyn dangos cefnogaeth barhaus y Cyngor i fasnachwr yn nhref Caerffili oherwydd effaith y gwaith gwella priffyrdd A468 / A469 o gylchfan Pwll-y-pant parhaus a'r hinsawdd economaidd sy'n dal yn heriol, bwriedir cyflwyno'r cyfnod parcio 2 awr am ddim yn y meysydd parcio talu ac arddangos am bythefnos yn ystod y cyfnod hyd at Nadolig 2017 mewn ymdrech i gefnogi a chynyddu masnach yn y dref.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, bod y cynnig i weithredu parcio am ddim yng nghanol tref Caerffili am hyd at 2 awr heb ddychwelyd am 2 awr, yn y pythefnos cyn y Nadolig 2017 (o'r 9fed i'r 23ain Rhagfyr 2017), yn cael ei gymeradwyo .

Terfynwyd y cyfarfod am 2.45 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd ei fod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhelir ar 13eg Rhagfyr 2017.

CADEIRYDD